Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad I'r Wasg / Press Release

(scroll down for English)

13 Hydref 2010

Adolygiad o Haematoleg Glinigol

Haematoleg Glinigol yw'r enw ar y driniaeth a roddir i gleifion ag anhwylderau ar y gwaed.

Cyn ffurfio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd bob un o'r tri ysbyty yng Ngogledd Cymru yn cynnig gwasanaethau haematoleg glinigol ac yn trin cleifion am anhwylderau cyffredin ar y gwaed. Roedd bob un o'r tri ysbyty hefyd yn trin anhwylderau mwy difrifol ar y gwaed a'r mêr esgyrn yn cynnwys lewcemia; weithiau cyfeirir at y clefydau hyn fel "canserau'r gwaed".

Mae'r gwasanaethau wedi'u trefnu a'u rheoli'n wahanol ar draws Gogledd Cymru ac mae'r adnoddau yn amrywio; nid yw cynnal tri thîm ar wahân yn ein caniatáu i fodloni gofynion canllawiau cenedlaethol canser ar gyfer gofal o ansawdd. Rydym hefyd wedi cael anawsterau i recriwtio staff meddygol i Ogledd Cymru a chan bod nifer o staff meddygol ar fin ymddeol yn y blynyddoedd nesaf, gallai hyn fod yn dipyn o sialens yn y dyfodol.

Mae angen sefydlu gwasanaeth modern sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaethau trin canser sy'n ddiogel ac yn effeithiol i'r cleifion yng Ngogledd Cymru. O ganlyniad i ffurfio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae cyfle bellach i sicrhau fod Haematoleg Glinigol yn cael yr adnoddau fydd yn ei galluogi i ddarparu gwasanaeth mewn dull cynaliadwy i'r dyfodol. Mae'r newidiadau posibl o ran staffio, ffurf y gwasanaethau ar hyn o bryd a datblygiad mewn technoleg cyffuriau yn golygu fod adolygiad o'r gwasanaeth yn angenrheidiol.

Er mwyn dechrau ar y broses adolygu, bydd y Grŵp Rhaglen Glinigol Canser yn cynnal cyfarfod ar gyfer staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau yn Hydref 2010. Yna fe fydd proses adolygu ffurfiol yn defnyddio'r 'model tri chylch'. Fel rhan o'r broses adolygu hon, bydd cyfres o gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol - cynhelir y cyntaf o'r rhain ym mis Tachwedd. Bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd yn y gwanwyn yn 2011.

Bydd mwy o fanylion ynglŷn â'r broses hon yn dilyn – cysylltwch â Barbara Lloyd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Corfforaethol am fwy o wybodaeth:
(01745) 534139
Barbara.lloyd@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

13th September 2010

Review of Clinical Haematology

Clinical haematology refers to the treatment of patients with blood disorders. Prior to the formation of Betsi Cadwaladr University Health Board all three Hospitals maintained clinical haematology services and treated patients for most common blood disorders. All three Hospitals also treated the more serious blood and bone marrow disorders including the leukaemias sometimes referred to as blood cancers.

Across North Wales, the services are organised, managed and resourced differently and maintaining three distinctly separate teams does not allow us to meet the requirements of the national cancer guidelines. We have also had difficulties in recruiting medical staff to North Wales and with a number of medical staff due to retire in the next few years this could provide challenges for the future.

There is a need to establish a modern service that is designed to deliver safe and effective cancer treatment services to the patients of North Wales. The formation of Betsi Cadwaladr University Health Board means there is now an opportunity to ensure that the Clinical Haematology service is provided and resourced in a sustainable way for the future. The potential changes to staffing, the current shape of services, and the advancement in drug technology means that a review of the service is necessary.

To begin the process of review, the Cancer Clinical Programme Group will hold a briefing for staff working within the services in October 2010. There will then be a formal review process using the 'three cycle model'. As part of this review process, there will be a series of meetings with stakeholders and professionals, the first to be held in November. The recommendations from the review will be submitted to the Health Board in the Spring of 2011.

Further details regarding this process will follow - please contact Barbara Lloyd, Assistant Director Corporate Affairs for further information.
(01745 534136
Barbara.lloyd@wales.nhs.uk

.